# Pwyllgor Rheoli Datblygu

**9 Gorffennaf 2025**

<u>Presennol</u>
Cynghorydd Dr SL Hancock (Cadeirydd)
Cynghorydd S Alderman, Cynghorydd D Clements, Cynghorydd T Evans, Cynghorydd C George, Dr M Havard, Mrs S Hoss, Cynghorydd M James, Mr GA Jones, Cynghorydd S Skyrme-Blackhall, Dr RM Plummer, Cynghorydd B Price, Cynghorydd V Thomas, Cynghorydd A Tinley a'r Cynghorydd C Williams.

<u>Swyddogion yn bresennol</u>
Ms K Attrill, (Rheolwr Rheoli Datblygu), Mr C Felgate (Cyfreithiwr), Ms B Gledhill (Swyddog Cynllunio), Mr M Kent (Swyddog Monitro), Mrs S Morris (Cyfarwyddwr Lle ac Ymgysylltu), Mr A Richards (Prif Swyddog Cynllunio), Mrs C Llewellyn (Cofnodion)

[Cyfarfod ar-lein 10.00am – 12.00am;
12.10pm - 1.05pm]

**1. Ymddiheuriadau**
Cafwyd ymddiheuriad am absenoldeb wrth y Cynghorydd M Bowen.

**2. Datgelu buddiant**
Datgelodd yr Aelod(au)/Swyddog(ion) canlynol yn y cais (ceisiadau) a/neu'r mater (ion) y cyfeirir atyn nhw isod:

| **Cais a Chyfeirnod** | **Aelod(au)/ Swyddog(ion)** | **Gweithred** |
|---|---|---|
| Cofnod 6(a) isod NP/25/0137/FUL - Newid defnydd o fod yn ganolfan ddehongli i ddefnydd cymysg o ganolfan ddehongli â bar ar thema rwm (A3) - The Coastal Schooner, Yr Harbwr, Saundersfoot | Cynghorydd C Williams | Gadael y cyfarfod tra roedd y cais yn cael ei drafod |
| Cofnod 6(b) isod NP/25/0149/FUL - Ailddatblygu ac estyniad i'r parc gwyliau presennol, i gynnwys gosod sylfeini ar gyfer lleoli carafanau; dymchwel adeiladau; ac addasu | Cynghorydd S Alderman | Aros yn y cyfarfod a chymryd rhan lawn yn y trafod a'r pleidleisio |

| | | |
|---|---|---|
| ysgubor amaethyddol yn annedd preswyl, a gosod paneli solar ffotofoltäig ar y to; adeiladu garej; a gwaith cysylltiedig gan gynnwys mynediad, lle parcio ceir, tirweddu caled a meddal, a seilwaith uwchben ac o dan y ddaear– Parc Gwyliau Rowston, New Hedges | | |
| Cofnod 6(c) isod<br>NP/25/0106/FUL<br>Ail-gyflwyno NP/23/0636/FUL - newid defnydd tir i greu caban symudol / carafán o dan bolisi 41 â lle penodol ar gyfer maes parcio cymunedol / lle troi'n ôl, llefydd pasio, ynghyd â gwelliannau ecolegol a thirweddu - Tir gerllaw Hen Odynnau Calch / Bythynnod, Middle Kilns Road, Herbrandston | Cynghorydd C George | Aros yn y cyfarfod a chymryd rhan lawn yn y trafod a'r pleidleisio |

## 3. Cofnodion

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 21 Mai a 18 Mehefin i'w cadarnhau a'u dilysu.

Yn dilyn cynnig gan y Cynghorydd James, wedi'i eilio gan y Cynghorydd Skyrme-Blackhall, **penderfynwyd** cadarnhau a dilysu cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Mai 2025.

Yn dilyn cynnig gan Dr Havard, wedi'i eilio gan y Cynghorydd Alderman, **penderfynwyd** cadarnhau a dilysu cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Mehefin 2025.

## 4. Dyletswyddau'r Aelodau wrth Benderfynu Ceisiadau

Roedd adroddiad y Cyfreithiwr yn crynhoi swyddogaeth y Pwyllgor oddi fewn i'r gyfundrefn gynllunio, gyda phwyslais penodol ar amcanion a dyletswydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol. Roedd yn mynd yn ei flaen i amlinellu pwrpas y gyfundrefn gynllunio ac ystyriaethau perthnasol wrth benderfynu, ac ychwanegodd y Cyfreithiwr bod angen rhoi ystyriaeth hefyd i'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol - Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040 a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cymru ar 24 Chwefror 2021 yn ogystal â'i Gynllun Datblygu Lleol 2 ei hun. Roedd yr

Adroddiad hefyd yn nodi bod gan yr Awdurdod ddyletswydd hefyd i gyflawni datblygiad cynaliadwy, ystyriaethau ecolegol oedd yn cynnwys swyddogaeth Deddf Amgylchedd Cymru 2016, ystyriaethau hawliau dynol, canllawiau'r Awdurdod i aelodau ynghylch penderfyniadau yn y Pwyllgor, a hefyd yn gosod allan rhai amgylchiadau lle gellid gosod costau yn erbyn yr Awdurdod mewn apêl. Yn olaf, ychwanegodd y Cyfreithiwr nad oedd yr adroddiad yn dweud bod penderfyniadau yn agored i gael eu scrwtineiddio gan y llysoedd ac y gallai hynny arwain at adolygiad barnwrol a'i bod felly yn bwysig eu bod yn gyfreithiol seiliedig.

**Nodwyd.**

**5. Hawl i siarad yn y Pwyllgor**

Hysbyswyd yr Aelodau gan y Cadeirydd bod rhybuddion priodol (cyn y dyddiad sydd wedi ei nodi) wedi dod i law oddi wrth bartïon a oedd yn dymuno defnyddio eu hawl i siarad yn y cyfarfod y diwrnod hwnnw. Yn unol â phenderfyniad Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Rhagfyr 2011, wedi'i ddiwygio 16 Mehefin 2021, rhoddir yr hawl i siaradwyr i annerch am bum munud oni bai eu bod wedi siarad ar yr un cais cynt pan roddir tri munud iddyn nhw i gyflwyno gwybodaeth o'r newydd. *(mae'r partïon oedd â diddordeb wedi'u rhestru isod gyferbyn â'u cais (ceisiadau) penodol, ac yn y drefn y buon nhw'n cyfarch y Pwyllgor):*

| **Rhif cyfeirnod** | **Cynnig** | **Siaradwr** |
|---|---|---|
| NP/25/0137/FUL Cofnod 6(a) cyfeir | Newid defnydd o fod yn ganolfan ddehongli i ddefnydd cymysg o ganolfan ddehongli â bar ar thema Rwm (A3) – The Coastal Schooner, Yr Harbwr, Saundersfoot | Alec Cormack – Cyngor Cymuned Saundersfoot<br>Chris Williams – Cynghorydd Sir |
| NP/25/0149/FUL Cofnod 6(b) cyfeir | Ailddatblygu ac estyniad i'r parc gwyliau presennol, i gynnwys gosod sylfeini ar gyfer lleoli carafanau; dymchwel adeiladau; ac addasu ysgubor amaethyddol yn annedd preswyl, a gosod paneli solar ffotofoltäig ar y to; adeiladu garej; a gwaith cysylltiedig gan gynnwys mynediad, lle parcio ceir, | Rhys Jordan – Cynghorydd Sir<br>Helen Ashby-Ridgway – Asiant |

| | | |
|---|---|---|
| | tirweddu caled a meddal, a seilwaith uwchben ac o dan y ddaear– Parc Gwyliau Rowston, New Hedges | |
| NP/25/0106/FUL Cofnod 6(c) cyfeir | Ail-gyflwyno NP/23/0636/FUL - newid defnydd tir i greu caban symudol / carafán o dan bolisi 41 â lle penodol ar gyfer maes parcio cymunedol / lle troi'n ôl, llefydd pasio, ynghyd â gwelliannau ecolegol a thirweddu - Tir gerllaw Hen Odynnau Calch / Bythynnod, Middle Kilns Road, Herbrandston | Cyng. Galdo - Cyngor Cymuned Andrew Vaughan-Harries – Asiant |

**6. Adroddiad Ceisiadau Cynllunio**

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiadau manwl yr Arweinydd Tîm Rheoli Datblygu, ynghyd ag unrhyw ddiweddariadau a adroddwyd ar lafar ar y diwrnod ac sydd wedi'u cofnodi isod. Penderfynodd y Pwyllgor y ceisiadau yn y modd canlynol (*nodir y penderfyniad ynghylch pob un yn dilyn y manylion a nodir am y cais perthnasol*):

[Datgelodd y Cynghorydd Williams fuddiant personol a rhagfarnol yn y cais canlynol a gadawodd y cyfarfod. Fodd bynnag, cynghorodd ei fod wedi cofrestru i siarad am y cais fel Cynghorydd Sir ac y byddai'n dychwelyd i'r cyfarfod ar yr adeg briodol i roi ei sylwadau.]

| | |
|---|---|
| Cyfeirnod: | NP/25/0137/FUL |
| Cynnig: | Newid defnydd o fod yn ganolfan ddehongli i ddefnydd cymysg o ganolfan ddehongli â bar ar thema Rwm (A3) – |
| Lleoliad: | The Coastal Schooner, Yr Harbwr, Saundersfoot |

Adroddwyd bod safle'r cais yn rhan o adeilad y Coastal Schooner oedd wedi'i leoli ar y rhan o'r dec oedd ar ben y cyfleuster llifddor oddi fewn i Harbwr Saundersfoot. Roedd yr adeilad yn atgynhyrchiad o lestr sgwner arfordirol draddodiadol a arferai weithredu o'r harbwr yn ystod y cyfnod cloddio glo i gludo glo o Saundersfoot. Roedd yr adeiledd presennol yn cynnwys prif fynedfa ochr i'r llecyn dehongli oddi fewn i'r rhan ganol, llecyn sinema bychan cysylltiedig oddi fewn y pen blaen, a chaffi wedi'i leoli yn ardal y starn gyda mynediad ar wahân, a hyn oll wedi'i osod oddi fewn i adran corff y llong o'r adeilad.

Mae'r cynnig presennol yn chwennych darparu defnydd A3 o'r newydd oddi fewn i'r ardal ddehongli i gynnwys 'Bar ar Thema Rwm' gyda gweddill y llecyn i'w gadw fel ardal ddehongli. Doedd yna ddim newidiadau allanol yn cael eu cynnig fel rhan o'r cais hwn.

Ystyriwyd bod y cais am ddefnydd A3 newydd oddi fewn i'r Sgwner Arfordirol bresennol yn syrthio y tu fas i'r ardal manwerthu ddiffiniedig o Saundersfoot, lle'r oedd y defnydd hwn wedi'i benodi yn unol â phrawf dilyniannol Llywodraeth Cymru i leoli datblygiad manwerthu oddi fewn i ardaloedd diffiniedig, i hyrwyddo polisi 'Canolfannau Trefol yn Gyntaf',

Yn ychwanegol i'r pryder hwn, byddai'r defnydd newydd hefyd yn creu rhagor o ddefnydd A3 oddi fewn i ardal fechan o Saundersfoot lle'r oedd yna gymysgfa o breswylio a masnachu, ac ystyrid y byddai'n effeithio ar fwynder yr ardal, yn arbennig ger anheddau preswyl, naill ai'n uniongyrchol neu trwy gyfuniad o ddefnydd A3 arall, ac ni fedrai'r swyddogion gefnogi hynny.

Nododd y swyddog bod yr ymgeisydd wedi holi pam fod defnydd A3 wedi'u caniatáu mewn lleoliadau eraill yn Saundersfoot, ac esboniodd bod yr enghreifftiau y cyfeiriwyd atyn nhw (yn Sgwâr y Cefnfor a'r Ganolfan Rhagoriaeth Forwrol) wedi eu hasesu o ran lleoliad, graddfa, effaith ar fwynder, a chanfuwyd bod y prawf dilyniannol ar gyfer datblygiadau manwerthu a masnachol yn dderbyniol. Yn ychwanegol, doedd yna ddim amod yn y caniatâd sy'n bodoli ar hyn o bryd ar gyfer y Sgwner i gyfyngu'r ardal a ddefnyddir ar gyfer defnydd A3 oddi fewn i'r adeiledd, ac roedd yna bryder y gallai'r fath ddefnydd gael ei ymestyn i ddominyddu'r adeiledd cyfan, gyda'r defnydd D1(dehongli) yn cael ei gyfyngu a fyddai'n arwain at newid cymeriad y safle.

Wrth i'r swyddog gyflwyno ei adroddiad mynegodd y Cyfreithiwr ei bryder nad oedd y Cynghorydd Williams wedi cael cyfle i glywed cyflwyniad y swyddog, ac na fyddai felly yn medru ymateb i ddim fyddai wedi cael ei ddweud yn y cyfarfod, pan fyddai yntau yn siarad yn ddiweddarach. Felly, gofynnwyd i'r Cynghorydd Williams ail-ymuno â'r cyfarfod ar y sail na fyddai'n cymryd rhan yn y penderfyniad yn fwy na defnyddio ei gyfle i gyflwyno gwybodaeth fel siaradwr, ac fe ail-adroddodd y swyddog ei sylwadau

Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod cadarnhaodd y swyddog y byddai'r ardal gaffi presennol yn cael ei gadw, ond y byddai'r defnydd D1 (dehongli) yn rhan o'r bar thema rwm, ac y byddai mannau eistedd a sefyll wedi'u lleoli ledled yr adeiledd. Doedd e ddim yn sicr a oedd gan yr adeiledd drwydded alcohol ar hyn o bryd ond cadarnhaodd y byddai'n

anodd rheoli a gorfodi yfed alcohol ar y dec digwyddiadau neu ar ddec yr adeiledd.

Y siaradwr cyntaf oedd y Cynghorydd Alec Cormack, yn siarad ar ran Cyngor Cymuned Saundersfoot. Nododd bod y Cyngor Cymuned wedi ystyried y cais yn ei gyfarfodydd ac roedd nifer o'r pryderon oedd wedi'u hamlinellu yn adran 'ymateb y cyhoedd' o'r adroddiad oedd gerbron y Pwyllgor wedi'u codi. Roedd y Cyngor yn cytuno â'r rhesymau dros wrthod, yn arbennig yr ail reswm, ynghylch aflonyddu anheddau cyfagos, a nododd bod y preswylwyr dim ond wedi cefnogi'r cais gwreiddiol oherwydd defnydd treftadaeth o'r adeiledd. Tra bod y Cyngor Cymuned yn derbyn nad oedd y defnydd gwreiddiol wedi profi'n fasnachol hyfyw, ac yn cytuno bod angen rhywbeth amgen, ystyriwyd y byddai'r adeiledd yn sicr o ddenu plant ac nad oedd y bar rwm arfaethedig yn briodol, yn arbennig oherwydd mai prin oedd y gofod mewnol a'r pryderon iechyd a diogelwch wedyn o ddefnyddio alcohol ar y dec uchaf agored. Derbyniwyd bod hwn yn adeiledd unigryw a gofynnodd i'r Pwyllgor wrthod y cais gan annog yr ymgeisydd ac awdurdod yr harbwr i ymwneud â'r gymuned, er mwyn darparu  datrysiad fyddai'n fwy teuluol garedig y gallai pawb ei gefnogi.

Yr ail siaradwr oedd y Cynghorydd Chris Williams.  Ail-adroddodd ei ddiddordeb personol a rhagfarnol yn y cais a dywedodd ei fod yn siarad fel Cynghorydd Sir, yn cynrychioli barn ei etholwyr yn hytrach nag fel Aelod o'r Awdurdod. Esboniodd bod y Sgwner wedi'i godi fel rhan o ddatblygiad ehangach gwerth £10 miliwn i ail-ddatblygu'r harbwr yn 2021/22.  Y weledigaeth a gyflwynwyd i'r cyhoedd oedd llestr masnachu glo traddodiadol o'r union un faint â'rgwreiddiol fel atyniad morwrol, ynghyd â dehongli, yn archwilio hanes morwrol Sir Benfro, ynghyd â chwrs defnyddio rhaffau uchel a'i adeiladu ar y cyd â rhaglen hyfforddi forwrol Coleg Sir Benfro ond, fodd bynnag, ni lwyddwyd yn hyn o beth. Yr hyn a oedd ar gael oedd ffrâm ddur wedi'i orchuddio â phren nad oedd yn draddodiadol mewn man hynod o weladwy a sensitif yn yr harbwr. Roedd o'r farn bod caniatâd cynllunio wedi'i roi ar sail yr ymrwymiad y byddai'r sgwner yn adnodd diwylliannol ac addysgol, ac esgeuluswyd ar y pryd y pryderon ynghylch ei raddfa a'i effaith ar y tirlun, oherwydd y buddiant cymunedol a addawyd ond na wireddwyd.

Roedd y Cynghorydd Williams yn ystyried bod y cais newydd am far preifat ar thema rwm yn gwyro oddi ar y defnydd gwreiddiol yn ogystal â pholisi'r Parc Cenedlaethol; yn newid pwrpas cyfleuster wedi'i greu gan arian cyhoeddus o fod yn ased cymunedol ac felly yn torri ymddiriedaeth gyhoeddus; yn anghydnaws ag awyrgylch deuluol harbwr Saundersfoot; yn difetha enw da a chywirdeb y Parc Cenedlaethol trwy danseilio ei ymrwymiad i addysg, cynaladwyedd  a chadwraeth ddiwylliannol; byddai'n gosod cynsail difrodus trwy ail-drefnu datblygiad diwylliannol

bwriadus ar gyfer gwneud elw masnachol preifat; ac, yn amlwg, roedd yn groes i farn y gymuned leol. Roedd yna hefyd bryderon ynghylch cynnydd mewn sŵn, tagfeydd traffig ac effaith weledol. Gorffennodd trwy ddweud bod pwrpas gwreiddiol y sgwner yn unol ag amcanion y Parc Cenedlaethol o ran addysg, treftadaeth, mwynder cymunedol a datblygiad cynaliadwy, ac ni ddylid gollwng y rhain er mwyn ffafrio gweithgaredd masnachol yn seiliedig ar werthu alcohol. Anogodd yr Aelodau i wrthod y cais.

[Gadawodd y Cynghorydd Williams y cyfarfod wedyn.]

Mynegodd yr Aelodau eu siom nad oedd bwriadau'r cais gwreiddiol wedi'u cyflawni. Cafodd y cynnig i wrthod y cais ei roi gerbron gan y Cynghorydd Clements, ei eilio gan Mrs Hoss a'i gario. Roedd yr Aelodau yn gobeithio y byddai'r ymgeisydd yn barod i drafod gyda'r gymuned leol er mwyn canfod defnydd addas i'r adeilad.

**Penderfyniad: Gwrthod y cais am y rhesymau canlynol:**

1. **Ystyrir bod y defnydd manwerthu newydd (A3) arfaethedig oddi fewn i'r adeilad wedi'i leoli y tu fas i'r ardal manwerthu ddiffiniedig ac ni chaiff ei ystyried yn dderbyniol mewn egwyddor ac y byddai'n groes i bolisïau 56 (Manwerthu yn y Parc Cenedlaethol) a 57 (Canolfannau Siopa Trefol ac Ardal) o'r CDLl2.**

2. **Ystyriwyd bod agosrwydd y defnydd arfaethedig i anheddau gerllaw yn rhy agos yn yr achos hwn, a hynny yn uniongyrchol ac ar y cyd ag unrhyw ddefnydd A3 arall a fyddai'n debygol o arwain at aflonyddu sylweddol o ran sŵn, a byddai'n effeithio'n andwyol ar fwyniant y llecyn a'r cymdogion, ac yn niweidiol i ansawdd yr amgylchedd a fwynheir yn y llecyn hwn ar hyn o bryd. Mae'r cynnydd mewn effaith sŵn o ganlyniad i agosrwydd y cyfleuster arfaethedig at anheddau cyfagos yn cael ei ystyried yn groes i feini prawf a ac c Polisi 30 (Mwynder) CDLl2.**

[Dychwelodd y Cynghorydd Williams i'r cyfarfod ac ail-ddatganodd y Cynghorydd Alderman ei ddatganiad o fuddiant personol yn y cais canlynol.]

(b) Cyfeirnod: NP/25/0149/FUL

Cynnig: Ailddatblygu ac estyniad i’r parc gwyliau presennol, i gynnwys gosod sylfeini ar gyfer lleoli carafanau; dymchwel adeiladau; ac addasu ysgubor amaethyddol yn annedd preswyl, a gosod paneli solar ffotofoltäig ar y to; adeiladu garej; a gwaith cysylltiedig gan gynnwys mynediad, lle parcio ceir, tirweddu caled a meddal, a seilwaith uwchben ac o dan y ddaear

Lleoliad: Parc Gwyliau Rowston, New Hedges

Adroddwyd bod y cais hwn, a oedd yn cael ei ystyried yn ddatblygiad o bwys, yn ffurfio rhan o Barc Gwyliau Rowston sydd yn weithredol ar hyn o bryd, wedi’i leoli i’r de ddwyrain o Ganol Gwledig New Hedges, a hefyd peth tir amaethyddol i gyfeiriad y gogledd o’r safle. Roedd y cais yn chwennych caniatâd ar gyfer ailddatblygu ac ehangu’r parc gwyliau presennol, i gynnwys gosod lleiniau ar gyfer gosod carafanau; dymchwel adeiladau; addasu sgubor amaethyddol yn annedd breswyl ynghyd â gosod paneli solar ffotofoltaig ar y to; codi garej; gwaith cysylltiedig yn cynnwys mynediad, maes parcio, tirweddu caled a meddal ac adeiledd uwchlaw ac o dan y ddaear. Roedd y diwygiadau arfaethedig i’r parc gwyliau presennol yn chwennych gosod carafanau sefydlog ar safle’r carafanau teithiol a phebyll. Byddai hyn yn arwain at ostyngiad o’r cyfanswm presennol o 225 o unedau gwyliau i 172 o garafanau sefydlog wedi’u gosod o amgylch ardal y safle, ac yna adleoli 15 o garafanau teithiol i gornel deorllewinol y safle, yn agos at y mynediad i’r gwasanaethau.

Tra byddai yna ostyngiad cyffredinol mewn nifer y lleiniau i 187 byddai yna gynnydd mewn carafanau sefydlog o 133 i 172, a’r rheiny yn fwy o faint ac yn fwy parhaol nag unedau teithio/cartrefi modur. Ystyriwyd y byddai golwg arfaethedig, tirweddu, gosod allan, mynediad a graddfa y cynllun arfaethedig yn unol â’r Cynllun Datblygu statudol (Cymru’r Dyfodol a’r Cynllun Datblygu Lleol 2) a’r Polisi Cynllunio Cenedlaethol ar ffurf Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 12), ac o ystyried pob dim perthnasol ystyriwyd y byddai’r datblygiad yn darparu estyniad i barc gwyliau cyfredol a fyddai’n arwain at leihad mewn nifer, a gwelliant amgylcheddol cyffredinol, ynghyd â gwaith cysylltiol arall yn cynnwys addasu adeilad sgubor yn annedd rheolwr tra byddai’r cymeriad lleol yn cael ei ddiogelu. O’r herwydd, ac yn ddibynnol ar gyfres o amodau priodol i reoli’r datblygiad, ystyriwyd bod y datblygiad yn dderbyniol a’r argymhelliad oedd cymeradwyo.

Yn y cyfarfod darparodd y swyddog wybodaeth ychwanegol mewn ymateb i gyngor cadwraeth ddiweddaraf (Rheoliad 37) ac asesiad

amodau ar gyfer ardaloedd morwrol wedi'u diogelu, a gyhoeddwyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ar Fehefin 25.

Roedd y Rheoliad 37 wedi'i ddiweddaru yn cydnabod bod nodweddion rhai Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) oedd wedi'u hasesu mewn cyflwr anffafriol o ganlyniad i gyfoethogiad maethol ac roedd CNC yn cydnabod goblygiadau cyfreithiol posib o ganlyniad. Fodd bynnag, doedden nhw, ar hyn o bryd, ddim yn cynghori gosod niwtraliaeth faethol fel anghenraid ar draws ACA morol tra bo gwaith technegol pellach ar y gweill i ddeall yr effeithiau maethol. Cyngor cyfredol CNC oedd i awdurdodau cynllunio lleol barhau i arddel cyfarwyddyd presennol CNC wrth fwrw golwg ar gynlluniau a phrosiectau a'u hasesu o dan Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017. Fe fyddai'r awdurdod lleol felly nawr yn bwrw golwg ar bob cais yn unol â Rheoliad 37 i nodi p'un a fyddai unrhyw effeithiau posib sylweddol ar yr ACA, trwy ystyried p'un a oedd yna lifeiriant dŵr brwnt ychwanegol o ganlyniad i'r datblygiad, a phe bai hynny yn dod i'r amlwg byddai'r awdurdod cynllunio lleol yn gwneud asesiad priodol, ar sail y broses asesu rheoliad cynefinoedd i sicrhau na fyddai unrhyw effaith ar gywirdeb y nodweddion ACA. Lle bynnag y byddai'r ACLl yn canfod nad oedd y datblygiad arfaethedig yn darparu llifeiriant brwnt ychwanegol neu yn ceisio lleihau llifeiriant dŵr brwnt oddi ar ddatblygiad byddai hyn yn cael ei ddiystyru.

Roedd y swyddogion wedi ystyried y cais a oedd gerbron yr Aelodau yn ofalus ac wedi asesu'r gostyngiad cyffredinol mewn nifer; yn ychwanegol i hyn, roedd gwybodaeth ychwanegol wedi'i ddarparu gan yr asiant. Yn seiliedig ar hyn oll ystyriwyd na fyddai'r cynllun datblygu arfaethedig yn achosi llifeiriant ychwanegol o ddŵr brwnt o'r safle ac yn amodol ar osod amodau ynghylch goleuo, cynllun rheoli'r gwaith adeiladu a chynnwys lluniadau a dogfennau perthnasol i gefnogi'r datblygiad arfaethedig, roedd yr asesiad priodol wedi dod i'r casgliad na fyddai'r cais yn effeithio'n andwyol ar gywirdeb yr ACA.

Amlinellodd y swyddog rhai newidiadau arfaethedig i amodau hefyd, gan ddiwygio amod pedwar i gynnwys na fyddai pebyll yn cael eu caniatáu ar y safle; geiriad amodau saith a 12 yn cael eu diwygio rhyw fymryn hefyd. Am fod strategaeth dyluniad goleuo allanol wedi'i gyflwyno a'i gytuno, cynigiwyd newid amod 20 o amod yn gofyn am wybodaeth i amod yn mynnu gwybodaeth a chynigiwyd ychwanegu amod 23 i ofyn am gynllun ymchwilio ysgrifenedig o ran archeoleg.

Tynnodd y swyddog sylw'r Aelodau i fodolaeth darn bychan o dir amaethyddol gradd 3A (BVA) oddi fewn i'r safle, ond am nad oedd hwn yn cael ei amaethu'n llwyddiannus, roedd y swyddogion yn barod i'w anwybyddu. Byddai rhan o hwn yn cael ei ddefnyddio i ranguddio ac roedd yr asiant wedi egluro y byddai 1,600 o goed newydd yn cael eu

plannu. Byddai hyn yn cynorthwyo i ranguddio'r datblygiad o'r tirlun ehangach a byddai'n lleihau gwelededd o ran safleoedd carafanau eraill gerllaw. Gofynnodd yr Aelodau hefyd ynghylch colli cloddiau aeddfed a chadarnhaodd y swyddog mai prin fyddai'r cloddiau fyddai'n cael eu colli, ond byddai eu hadleoli yn anodd, fodd bynnag, byddai'r Awdurdod yn sicrhau y byddai deunyddiau yn cael eu cadw a'u hailddefnyddio ar y safle. Nododd hefyd bod peth plannu eisoes wedi'i wneud a bod yna gymysgfa dda o goed newydd yn yr arfaeth, a fyddai'n darparu rhanguddio fel bo'r datblygiad yn llai gweladwy gydag amser.

Y cyntaf o ddau siaradwr oedd y Cynghorydd Rhys Jordan a oedd yn siarad o blaid y cynnig, gan gredu bod hwn yn ddatblygiad o ansawdd arbennig, a bod yr ymgeisydd wedi ymgysylltu â'r gymuned ac o ganlyniad roedd y mwyafrif yn gefnogol i'r newidiadau arfaethedig. Byddai yna fuddiant cymunedol ystyrlon mewn denu ymwelwyr y tu fas i dymor yr haf yn arbennig i'r dafarn leol, y siop a'r swyddfa bost. Byddai'r datblygiad hefyd yn creu swyddi fyddai yn talu'n dda yn ystod y cyfnod adeiladu ac wedi hynny pan fyddai'n weithredol. Roedd hefyd o'r farn bod cabannau o ansawdd da yn bwysig er mwyn lleihau'r pwysau ar berchnogi ail gartrefi am na fyddai'r rhain yn amharu ar y stoc dai barhaol. Roedd felly yn annog yr Aelodau i gefnogi'r cais.

Yr ail i siarad oedd Helen Ashby-Ridgeway, yr asiant. Dywedodd hi fod yr ymgeisydd, Ystad Hean Castle, yn croesawu'r argymhelliad ac wedi datblygu cynigion oedd yn llwyr barchu amcanion y Parc Cenedlaethol, polisïau CDLl, yn ogystal â sylwadau'r swyddogion, ymgynghorwyr a'r gymuned. Roedd yn cydnabod y byddai'r parc gwyliau yn ymestyn dros ardal ehangach nag yw ar hyn o bryd, ond fe fyddai yna welliannau sylweddol, yn arbennig o ran y golygfeydd o'r môr unwaith y byddai'r plannu wedi'i sefydlu. Byddai yna hefyd fuddiant o newid lliwiau'r carafanau i liwiau tawelach a fyddai'n gweddu i'r dirwedd, a gosod allan gwell o ran lleoli'r carafanau i ffwrdd o'r mannau mwyaf gweladwy. Byddai yna hefyd blannu sylweddol ychwanegol a chadw'r mwyafrif o'r coed presennol, a llawer o hyn yn digwydd cyn bwrw ati i adleoli'r carafanau. Byddai yna welliannau sylweddol o ran llwybrau teithio ystlumod a phathewod a chynefinoedd, cynllun goleuo sensitif a chyflwyno cynllun draenio cynaliadwy ar gyfer dŵr wyneb. Nododd na fyddai unrhyw gyfuno gweledol na materol gyda'r safle drws nesaf gan y bydd y lletem werdd yn cael ei chadw. Byddai'r cynnig hefyd yn gweld gwaredu siediau gwag ac addasu sgubor wag yn annedd breswyl i'r rheolwr. Byddai'r gwelliannau hefyd yn arwain at gynnydd yn y nifer fydd yn cael eu cyflogi ar y safle yn ogystal â lleihad yn nifer y carafanau teithiol yn teithio trwy'r pentref. Ni fyddai unrhyw newidiadau i'r fynedfa bresennol a byddai croesfan newydd ar y ffordd drwy'r pentref yn gwella diogelwch cerddwyr ac yn annog defnydd o gyfleusterau lleol. Ychwanegodd pan fyddai'n bosib i'r ystâd gymryd meddiant drachefn o'r

les byddai'r safle yn cael ei ailddatblygu i efelychu safonau uchel yr Ystâd ei hun a'r safonau a ddisgwylir gan ymwelwyr. Byddai'r datblygiad yn sicrhau buddiant llwyr i fioamrywiaeth a bydd y safle yn fwy cynaliadwy, wedi'i leoli'n dda o ran gwasanaeth bws a mynediad i'r llwybr arfordirol, a'r hawliau tramwy cyhoeddus ehangach. Nododd yr asiant bod y gwrthwynebiadau oedd wedi dod i law wedi'u cydnabod yn yr adroddiad ac roedd yna gefnogaeth gan yr Aelod a'r Cyngor Cymuned. Roedd y datblygiad yn unol â pholisïau allweddol y Cynllun Datblygu Lleol ac yn cefnogi economi ymwelwyr mewn ardaloedd gwledig. Gofynnodd i'r Aelodau gefnogi argymhelliad y swyddog.

Holodd yr Aelodau p'un a oedd y goleuo wedi'i amodi am byth a chynghorodd y swyddogion bod geiriad yr amod yn sicrhau'r bwriad hwn; gofynnwyd i gyfarwyddyd gwybren dywyll gael ei grybwyll fel rhan o'r rhesymu. Cafodd yr Aelodau eu bodloni gan esboniadau'r swyddogion ynghylch capasiti tirwedd, colli tir BVA a'r amod preswylio o ran llety'r rheolwr. Cafodd argymhelliad y swyddog i gymeradwyo yn unol ag amodau, yn cynnwys y rheiny oedd wedi'u hargymell gan y swyddogion i'w hychwanegu a'u diwygio yn ystod y cyfarfod, ei gynnig gan Dr Plummer, ei eilio gan y Cynghorydd Williams ac fe gariodd y dydd.

**Penderfyniad: Cymeradwyo'r cais yn amodol ar amseru'r datblygiad, yn unol â chynlluniau a dogfennau wedi'u cymeradwyo, nifer y carafanau, preswylio yn y carafanau fel llety gwyliau a'r sgubor ar gyfer rhywun wedi'i gyflogi gan y busnes, draenio dŵr wyneb, cynllun cyfnodol, lliw'r carafanau, llwybr troed/croesfan, parcio hygyrch, pwyntiau gwefru cerbydau trydan, Cynllun Rheoli Traffig Adeiladu, oriau gwaith y dymchwel a'r adeiladu, cynlluniau ac asesiadau coedyddiaeth, cadw at Ddatganiad Isadeiledd Gwyrdd, cynllun rheoli tirwedd, Cynllun Rheoli Ecolegol a Thirweddu, Cynllun Rheoli Amgylchedd Adeiladu, goleuo, ailgylchu gwastraff, trac mynediad a chynllun ysgrifenedig o ymchwil i'r adeiladau presennol.**

[Cafodd y cyfarfod ei ohirio rhwng 12.00pm a 12.10pm]

[Ailddatganodd y Cynghorydd George ei datganiad personol ynghylch y cais canlynol.]

(c) Cyfeirnod: NP/25/0106/FUL
Cynnig: Ail-gyflwyno NP/23/0636/FUL – newid defnydd tir i greu caban symudol / carafán o dan polisi 41 â lle penodol ar gyfer maes parcio cymunedol / lle troi'n ôl, llefydd pasio, ynghyd â gwelliannau ecolegol a thirweddu
Lleoliad: Tir gerllaw Hen Odynnau Calch / Bythynnod, Middle Kilns Road, Herbrandston

Adroddwyd bod y cais hwn yn ailgyflwyniad o gais a wrthodwyd yn y gorffennol NP/23/0636/FUL yn gofyn am ganiatâd i newid defnydd o dir i greu darpariaeth caban mudol / carafán a pharcio penodol cymunedol / man troi, ynghyd â hyrwyddiadau ecolegol a thirweddol.

Roedd y cais cyfredol yn wahanol i'r cais blaenorol dim ond oherwydd cyflwyno datganiad isadeiledd gwyrdd, ac roedd lluniad yn dangos lleoliad mannau pasio tebygol ar hyd Heol Middle Kiln. Doedd yna ddim newidiadau polisi ers gwrthod y cais blaenorol.

Roedd y safle wedi'i leoli mewn ardal hynod sensitif gan ei fod yn agos i Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI) (Dyfrffordd Aberdaugleddau) ac Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA Morol Sir Benfro). Roedd hefyd wedi'i leoli o fewn cefn gwlad; felly roedd Polisi 7 (Cefn Gwlad) o'r CDLl2 yn berthnasol. Roedd y polisi hwn yn nodi'r mathau o ddatblygiad / defnydd oedd yn cael eu hystyried yn dderbyniol a phriodol o fewn cefn gwlad. Ystyriwyd bod lleoli bwthyn mudol / carafán yn groes i Bolisi 7. O'r herwydd doedd y cynnig ddim yn cydymffurfio â darpariaethau Polisi 41 (Datblygu Carafán, Gwersylla a Chabanau) o'r CDLl2.

O gymryd lleoliad anghynaladwy'r datblygiad ynghyd â phrinder cyfleoedd teithio cynaliadwy, roedd y cynnig hefyd yn groes i Bolisïau 59 (Cludiant Cynaliadwy) a 60 (Effeithiau Trafnidiaeth) o'r CDLl2.

Roedd asesiad rheoliad cynefinoedd (ARhC) wedi'i wneud a'r canlyniad oedd bod gan y datblygiad potensial o gael effaith sylweddol ar yr ystlum pedol mwyaf a oedd yn nodwedd amlwg o Safleoedd Ystlumod Sir Benfro ac Ardal Cadwraeth Arbennig Llynnoedd Bosherston (ACA) yn codi o'r aflonyddu ar hyd y llwybr cymudo a phorthianna oherwydd maint y gwydro oedd mewn golwg.

Roedd yna hefyd bryderon o ran isadeiledd gwyrdd am fod peth clirio safle eisoes wedi'i wneud cyn cyflwyno'r cais blaenorol a chyn cyflawni'r arolwg ecolegol. Doedd yna ddim sicrwydd felly ynghylch seilwaith gwyrdd gwaelodol y safle a thra bo hyrwyddo ecolegol wedi'i gynnig does

yna ddim sicrwydd y byddai'r hyrwyddo hwnnw yn arwain at fuddiant i fioamrywiaeth

Ar y cyfan, tra bo'r cynnig yn ceisio gwella'r cyfleusterau parcio ar hyd Heol Middle Kiln roedd y cynnig yn dal yn annerbyniol oherwydd y niwed fyddai'n cael ei achosi o ganlyniad. Yr argymhelliad oedd gwrthod caniatâd.

Yn y cyfarfod ymddiheurodd y swyddog am ddau gamgymeriad teipio ym mharagraff 44 o'i hadroddiad - dylai lled y ffordd fod wedi'i nodi fel 2.9m ac enw'r ffordd fawr yn C3001. Fel gyda'r cais blaenorol a ystyriwyd gan y Pwyllgor, darparodd y swyddog wybodaeth ychwanegol mewn ymateb i gyngor cadwraeth oedd wedi'i ddiweddaru (Rheoliad 37) ac amodau asesu ar gyfer ardaloedd cadwraeth morwrol a gyhoeddwyd ar Fehefin 25 gan Gyfoeth Naturiol Cymru.

Roedd y Rheoliad 37 wedi'i ddiweddaru yn cydnabod bod nodweddion rhai Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) mewn cyflwr anffafriol oherwydd cyfoethogiad maethol ac roedd CNC yn cydnabod y goblygiadau cyfreithiol o ganlyniad. Fodd bynnag, doedden nhw ddim ar hyn o bryd yn cymell niwtraliaeth faethol fel anghenraid ar draws ACA morwrol nes bod mwy o waith technegol yn cael ei wneud i ddeall effeithiau'r maetholion hyn. Cyngor presennol CNC oedd i awdurdodau cynllunio lleol barhau i gadw at gyfarwyddyd presennol CNC wrth wirio ac asesu prosiectau yn ymwneud â chadwraeth cynefinoedd a rheoliadau rhywogaethau. Byddai'r awdurdod lleol nawr yn gwirio pob cais yn unol â Rheoliad 37 er mwyn canfod fyddai yna effeithiau sylweddol ar yr ACA trwy ystyried p'un a fyddai llifeiriant dŵr brwnt ychwanegol o ganlyniad i'r datblygiad arfaethedig, a lle bynnag y byddai hynny byddai'r ACLl yn gwneud asesiad priodol trwy asesiad rheoliadau cynefinoedd i wneud yn sicr na fyddai yna effaith ar gywirdeb yr ACA. Lle bynnag y byddai'r ACLl yn canfod nad oedd y datblygiad arfaethedig yn darparu unrhyw lifeiriant brwnt ychwanegol neu ddim yn ceisio lleihau llifeiriant dŵr brwnt o ddatblygiad byddai hyn yn cael ei ddiystyru.

O ran y cais o dan ystyriaeth, gan fod y datblygiad yn cynnig llifeiriant dŵr brwnt ychwanegol, byddai yn cael ei wirio ac o ganlyniad ni fyddai'n cydymffurfio â'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd oherwydd y llifeiriant dŵr brwnt ychwanegol o ganlyniad i'r cyfleuster trin preifat oedd yn yr arfaeth. Roedd Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cytuno i hyn. O'r herwydd, roedd rheswm ychwanegol dros wrthod wedi'i gynnig.

Cynghorodd y Cyfreithiwr nad oedd materion barn cynllunio yn berthnasol i asesiadau o dan Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 ac felly byddai yn anodd iawn i'r Pwyllgor  gymeradwyo'r cais hwn

yn gyfreithiol, oni bai eu bod yn medru ei gyfiawnhau trwy gymryd agwedd wahanol tuag at yr asesiad priodol.

Y cyntaf o ddau siaradwr oedd y Cynghorydd Galdo o Gyngor Cymuned Herbrandston a oedd wedi gwrthwynebu'r cais hwn a'r cais blaenorol. Nododd bod Aber Sandy Haven, yn rhan o'r ACA ac y dylid parchu hynny a diogelu rhag dinistrio planhigion a bywyd gwyllt a oedd eisoes wedi digwydd yn y llecyn hwn gan yr ymgeisydd wrth ddefnyddio peiriannau trwm a oedd yn annerbyniol. Credai fod yna ddyletswydd gofal i gynnal tawelwch y llecyn ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Byddai'r newid defnydd hefyd yn niweidiol i'r draethlin ac yn cael effaith negyddol ar rywogaethau. Roedd y Cyngor Cymuned o'r farn y byddai caniatáu annedd mewn ardal SSSI yn ddifäol ac y gallai osod cynsail mewn lleoliadau eraill.

Mewn ymateb gan Aelod amcanodd y Cynghorydd Galdo bod y tir wedi'i glirio tua thair blynedd ynghynt, yn fuan wedi i'r ymgeisydd brynu'r tir. Cadarnhaodd nad oedd y darn oedd o dan Orchymyn Cadwraeth Coed wedi'i glirio.

Yr ail siaradwr oedd yr Asiant Mr Andrew Vaughan-Harries. Cydnabu bod y Pwyllgor wedi clywed llawer o sylwadau negyddol a chyfyngiadau polisi roedd rhaid i'r Aelodau gymryd ystyriaeth ohonyn nhw, ond roedd e am dynnu sylw at rai agweddau cadarnhaol. Nododd bod y tir mewn cyflwr gwantan pan gafodd ei brynu gan yr ymgeisydd tair blynedd nôl. Ar hyd y draethlin roedd yna ardal gerdded a hamddena poblogaidd oedd bellach yn cael ei ddefnyddio i ollwng sbwriel yn answyddogol, ac roedd yr ymgeisydd wedi rhoi o'i amser i glirio'r teiars a'r sbwriel, wedi cyflawni mân atgyweiriadau ar hyd y ffordd a'r llwybr ceffyl, ac mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Cadwraeth Adeiladau roedd hefyd wedi trwsio ac uwchraddio'r odyn galch oedd wedi ei chofrestru yn Radd II. Roedd yna hefyd fantais i'r gymuned am fod yr ymgeisydd wedi caniatáu parcio ar ei dir a'r bwriad oedd ei osod allan a'i ail-wynebu. Dywedodd fod ei gleient yn barod i weithio gyda'r swyddogion i weld p'un a fyddai'n bosib creu'r mannau pasio. Roedd yna dir digonol hefyd i blannu rhagor o goed a chloddiau i ddarparu hyrwyddiadau ychwanegol. Byddai'n bosib hefyd cynnal trafodaethau pellach o ran bodloni meini prawf gosod carafanau yng nghefn gwlad.

Doedd Mr Vaughan-Harries ddim yn barod i dderbyn yr awgrym o ddinistrio bwriadol gan fod yr ymgeisydd wedi cyflwyno cais GCC i docio'r coed a chlirio'r eiddew o amgylch yr odyn galch. Cydnabu bod peth clirio wedi digwydd ond gofynnodd i'r Pwyllgor gymryd i ystyriaeth y gwelliannau a wnaed a nododd nad oedd yr ymgeisydd am niweidio'r Parc Cenedlaethol ond yn hytrach ei hyrwyddo.

Mynegodd un Aelod beth cydymdeimlad â phicil yr ymgeisydd ond o dderbyn y gwrthwynebiadau polisi a nodwyd gan y swyddogion, cafodd yr argymhelliad i wrthod, ac i gynnwys y rheswm ychwanegol dros wrthod a nodwyd yn y cyfarfod, ei roi gerbron gan y Cynghorydd Clements, ei eilio gan Dr Havard ac fe'i cariwyd.

**Penderfyniad: Gwrthod y cais am y rhesymau canlynol:**

1. **Byddai'r cynnig yn groes i Bolisi 7 (Cefn Gwlad) Cynllun Datblygu Lleol Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (mabwysiadwyd 2020) am y byddai yn arwain at ddatblygiad annerbyniol o fewn cefn gwlad, hefyd yn groes i egwyddorion Polisi Cynllunio Cymru Argraffiad 12 (2024) (paragraff 3.60).**
2. **Byddai'r caban mudol / carafán a'r datblygiadau cysylltiedig yn groes i Bolisi 41 (Datblygiad Carafán, Gwersylla a Chabannau) Cynllun Datblygu Lleol Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (mabwysiadwyd 2020) a'r Canllaw Cynllunio Ychwanegol Carafán a Gwersylla oedd wedi'i fabwysiadu am y byddai'n arwain at ddatblygu ar hyd yr arfordir. Byddai'r datblygiad hwn yn arwain at ymyrraeth weledol annerbyniol yn y lleoliad hwn, yn niweidio nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol, yn groes i ofynion Polisi 8 (Nodweddion Arbennig), 14 (Cadwraeth Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro) a 29 (Dylunio Cynaliadwy) o'r Cynllun Datblygu Lleol Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (mabwysiadwyd 2020).**
3. **Byddai'r cynnig yn arwain at effeithiau amgylcheddol negyddol trwy gynnydd mewn symudiadau trafnidiaeth i'r safle ac oddi yno, na fyddai'n gynaliadwy, yn groes i Bolisi 59 (Cludiant Cynaliadwy) o gynllun Datblygu Lleol Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (mabwysiadwyd 2020) a pharagraffau 4.0.3 a 4.1.51 o Bolisi Cynllunio Cymru Argraffiad 12 (2024).**
4. **Byddai'r cynnig yn arwain at effaith sylweddol ar lwybrau cymudo a phorthianna rhywogaeth sydd wedi'i ddiogelu gan Ddeddf Cefn Gwlad a Bywyd Gwyllt 1981 (wedi'i diwygio) a chan Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau (2010). Byddai'r datblygiad yn cael effaith niweidiol sylweddol ar gywirdeb nodwedd mudol Safle Diogelu Cenedlaethol (Safleoedd Ystlumod Sir Benfro a Llynnoedd Bosherston ACA) ac felly yn groes i ddarpariaethau Polisi 11 o Gynllun Datblygu Lleol 2 Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (mabwysiadwyd 2020) ac i Reoliad 63 o'r Rheoliadau Cynefinoedd.**
5. **Mae yna ansicrwydd ynghylch gwaelodlin Isadeiledd Gwyrdd ar y safle oherwydd y clirio sydd eisoes wedi digwydd ar y safle. Mae yna felly ansicrwydd ynghylch cydymffurfiad y cynnig â pharagraff 6.4.5 o Bolisi Cynllunio Cymru Argraffiad 12 (2024).**

**6. Mae yna wybodaeth annigonol i ddangos na fyddai'r cynnig yn effeithio'n andwyol ar ansawdd dŵr Ardal Gadwraeth Forol Arbennig Sir Benfro (ACA) trwy ychwanegu llifeiriant brwnt a deunydd maethol i nodwedd ac ardal Ardal Cadwraeth Arbennig sydd eisoes yn ddiffygiol o ran ansawdd dŵr. Byddai hyn yn groes i Bolisi 11 o Gynllun Datblygu Lleol 2 Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (Mabwysiadwyd 2020) ac i Reoliad 63 o Reoliadau Cadwraeth a Rhywogaethau Cynefinoedd 2017 (wedi'i ddiwygio).**

**7. Apeliadau**

Adroddodd Arweinydd y Tîm Rheoli Datblygu am saith o apeliadau (yn erbyn penderfyniadau cynllunio'r Awdurdod) oedd ar hyn o bryd wedi'u cofrestru gyda Llywodraeth Cymru, gan fanylu ynghylch ble mae pob un o'r saith wedi cyrraedd o ran y broses apêl.

Adroddwyd am ganlyniadau tair apêl gerbron y Pwyllgor, oedd wedi'u gwrthod: EC22/0024 Codi a lleoli caban haf/sied - ar dir y cyfeiriwyd ato fel Llainfach, i'r gogledd orllewin o Garnhedryn Uchaf, ger Tyddewi; EC23/0076 Gwaredu coed cynhenid a gwastatau tir - tir i'r de o Barc Yr Eglwys, Brynhenllan, Dinas; ac NP/24/0369/FUL Codi llecyn decio 6 x 6m i'r tu blaen o adeilad (ôl-weithredol) - The Hibernia Inn, 60 Angle Village, Angle.

Wrth ystyried y penderfyniadau cadarnhaol, canmolodd Cadeirydd y Pwyllgor broffesiynoldeb y staff cynllunio a chadernid y gwaith penderfynu; ychwanegodd y Rheolwr Rheoli Datblygu ei diolch hithau i'r tîm gorfodaeth am ei gwaith caled i leihau'r nifer o achosion gorfodaeth ers y cyfnod Covid.

Mewn ymateb i gwestiynau gan y Pwyllgor cynghorodd y swyddog bod y cais Carnhedryn yn apêl yn erbyn rhybudd gorfodaeth ac felly byddai hynny yn dod i rym ar unwaith. O ran Hibernia Inn, cynghorodd bod y swyddogion o'r farn bod yna ddatrysiad posib, a'r gobaith oedd cynnal rhagor o drafodaethau.

**Nodwyd.**

| |
|---|
| Cadarnhawyd y cofnodion hyn yn y cyfarfod o'r Pwyllgor Rheoli Datblygu a gynhaliwyd ar 3 Medi 2025 heb eu diwygio. |